# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Oaks**

**Larch Avenue**
**Shotton**
**Glannau Dyfrdwy**
**Shotton**
**CH5 1NF**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Oaks

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Sapphire Streams Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Medi 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; gwrandewir arnynt a gallant wneud dewisiadau am yr hyn y maent ei eisiau a sut y maent yn treulio eu hamser. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl, y staff a'r rheolwyr yn gadarnhaol a pharchus. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl er bod rhywfaint o'r wybodaeth yn wahanol i'r cymorth sydd ei angen gan y staff. Nid yw'r cofnodion bob amser yn gywir nac yn gyson i ddangos pa ofal a chymorth a ddarparwyd neu pa gamau a gymerwyd pan fo anghenion yn newid. Gall y bobl dreulio amser yn cymdeithasu ag eraill os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae rhai gweithgareddau ar gael a ddarperir gan y staff. Mae'r staff yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a gânt gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr a gallant godi unrhyw faterion neu bryderon gyda nhw.

Mae systemau a phrosesau ar waith ond mae angen iddynt fod yn fwy cadarn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol ac er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn treulio amser gyda'r bobl a'r staff ac yn cynnig cymorth i'r rheolwr. Gwelsom fod angen gwelliannau o ran cadw cofnodion, ffeiliau'r staff, hyfforddiant, sesiynau goruchwylio a'r amgylchedd.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gallu gwneud penderfyniadau, gwrandewir arnynt a chânt eu trin ag urddas a pharch.
Rhoddir dewis o brydau bwyd i'r bobl ac mae diodydd ar gael hefyd. Darperir bwydlenni a dywedodd un person wrthym am y bwydydd y mae'n eu hoffi a sut y mae'n archebu'r hyn y mae am ei gael. Dywedodd person arall wrthym *"I love it here"*. Mae ganddo ffôn symudol i gadw mewn cysylltiad â'i ffrindiau ac i ffonio'r rheolwyr os bydd angen iddo siarad am unrhyw beth. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr er mwyn sicrhau y caiff lleisiau'r bobl eu clywed a'u bod yn cael eu cynnwys yn yr hyn sy'n digwydd yn eu cartref. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn treulio amser yn siarad â'r bobl er mwyn cael gwybod eu barn am y gwasanaeth. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl, y staff a'r rheolwyr yn gadarnhaol, yn garedig ac yn ofalgar. Dywedodd y staff wrthym am y gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y maent yn ei gynnig i'r bobl, ond nid yw hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu yn y cofnodion a wneir am y gofal a ddarperir.

Mae anghenion corfforol, anghenion iechyd meddwl ac anghenion llesiant emosiynol y bobl yn cael eu diwallu ar y cyfan.
Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl ond mae rhannau o'r wybodaeth yn anghyson â'r cymorth y mae'r staff cymorth yn ei gynnig. Nid yw'r cofnodion bob amser yn dangos bod gofal a chymorth wedi'u darparu yn unol â chynlluniau'r bobl. Nid oes unrhyw berson gweithgareddau wedi'i gyflogi i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn helpu i gynnig gweithgareddau. Mae cerbyd ar gael, ond dim ond dau berson ar y tro y gall hwn ei gludo er y gellir llogi bws mini ar gyfer gwibdeithiau pan fydd y tywydd yn well. Gall y bobl dreulio amser naill ai'n cymdeithasu â'i gilydd mewn gwahanol ardaloedd neu dreulio amser ar eu pen eu hunain yn eu hystafelloedd. Mae'r staff yn sôn yn llawn hoffter am y bobl ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw.

Mae'n bosibl na chaiff y bobl bob amser eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y cofnodion a gedwir yn wael. Dywedodd un person wrthym ei fod yn teimlo'n ddiogel yn byw yma a'i fod yn gallu codi unrhyw bryderon yn uniongyrchol gyda'r rheolwr a'r dirprwy reolwr. Mae digwyddiadau a damweiniau yn cael eu cofnodi ac mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu. Mae angen gwella'r broses o gadw cofnodion er mwyn dangos pa ofal a chymorth a gynigiwyd i'r bobl ac i ddangos bod y staff wedi cysylltu â gweithwyr proffesiynol pan fo anghenion yn newid. Nid oedd asesiad risg wedi'i gwblhau ar gyfer un person, mewn perthynas ag angen gofal penodol a thrafodwyd hyn â'r rheolwr a ddywedodd y byddai'n ymdrin â hyn. Nid oes prosesau recriwtio cadarn yn cael eu dilyn.

Mae'r bobl yn byw mewn adeilad y mae angen ei wella. Mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli'n unol â'u chwaeth a'u diddordebau, ond gellid gwneud iddynt edrych yn fwy cartrefol ac yn fwy clyd. Nodwyd gennym fod angen sylw brys ar sawl maes, gan gynnwys y lloriau, seddi, décor cyffredinol, llenni a deunyddiau a rheoli heintiau. Mae ardal y tu allan sy'n cynnwys planhigion synhwyraidd a gardd i'r bobl fynd iddi a'i mwynhau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn ymgynghori ag eraill ac yn eu cynnwys er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, yn ofalgar ac yn anogol. Gofynnir i weithwyr iechyd porffesiynol eraill am gyngor a chymorth pan fydd anghenion y bobl yn newid ond mae angen i'r cofnodion ddangos llwybr archwilio cliriach o hyn. Caiff cyflyrau iechyd a meddyginiaethau a ragnodir eu cofnodi. Gall y bobl a'r staff godi unrhyw bryderon â'r rheolwr neu'r dirprwy reolwr a fydd yn gweithredu i'w datrys. Cynhelir adolygiadau ac maent yn cynnwys y bobl berthnasol.

Caiff cynlluniau personol y bobl eu diweddaru'n rheolaidd ac maent ar gael i'r staff eu dilyn, ond nid yw'r cofnodion dyddiol o'r gofal a ddarperir yn gynhwysfawr. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, ac yn cynnwys dewisiadau personol y bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn deall yr hyn y maent yn ei hoffi a beth nad ydynt yn ei hoffi. Gwelsom rai anghysondebau yn y cynlluniau personol o ran y cymorth sydd ei angen gan y staff. Ar gyfer un person, nid oedd asesiad risg wedi ei gwblhau mewn perthynas ag angen gofal penodol. Ymdriniodd y rheolwr â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Mae'r staff yn defnyddio dyfeisiau a ddelir â llaw i'w harwain wrth ddiwallu anghenion gofal a chymorth pob person. Nid yw'r cofnodion bob amser yn cael eu cwblhau ar yr adeg y caiff y gofal a'r cymorth eu rhoi. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym eu bod yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r dyfeisiau hyn. Pan fyddant yn nodi nad yw'r cofnodion o'r gofal a roddwyd wedi'u cwblhau, maent yn trafod y mater â'r staff gofal er mwyn cael gwybod pam. Gwelsom fod y cofnodion dyddiol yn sylfaenol ac nad oeddent yn gyson nac yn ddigon manwl. Nid yw'r cofnodion yn darparu llwybr archwilio clir o'r hyn sydd wedi digwydd pan fydd y staff wedi gofyn am gyngor proffesiynol neu wedi cymryd camau. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae polisi meddyginiaeth ar waith ac mae archwiliadau meddyginiaeth yn cael eu cwblhau hefyd. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ac mae asesiadau cymhwysedd yn cael eu cynnal. Gwelsom nad oedd yr asesiadau cymhwysedd wedi'u cwblhau'n llawn, a oedd yn effeithio ar eu heffeithiolrwydd. Mae siartiau'r cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) yn electronig ac mae systemau ar waith i rybuddio'r staff, er enghraifft, os rhoddwyd meddyginiaeth eisoes. Dywedodd y staff wrthym am y camau y byddent yn eu cymryd pe byddai gwall meddyginiaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd y mae angen gwneud gwelliannau iddo o ran gwaith cynnal a chadw a glendid. Mae drysau'r ystafelloedd gwely wedi'u paentio i edrych fel drws ffrynt sy'n helpu i greu'r ymdeimlad bod gan y bobl eu lle byw eu hunain. Mae blychau cofio ar y wal y tu allan i ystafell pob person, er mwyn helpu i gyfeirio'r bobl, ond mae rhai ohonynt yn wag. Dywedodd y dirprwy reolwr wrthym ei fod wedi cysylltu â pherthnasau'r bobl er mwyn cael eitemau ar eu cyfer. Dywedodd un person wrthym ei fod yn hoffi ei ystafell a bod lluniau o'i hoff ganwr a lluniau o'i deulu yn cael eu harddangos. Gwelsom lenni a rhwydi nad oeddent o'r maint cywir ac nad oeddent wedi'u hongian yn iawn a gwelyau heb eu gwneud. Mae angen gwella ansawdd a glendid y dillad gwely er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd yn fwy cartrefol ac yn fwy clyd. Mae angen gwella cysur yr ardaloedd cymunedol hefyd. Gwelsom fod rhai cadeiriau wedi'u staenio, gwelwyd pad sedd ar y llawr a oedd yn creu perygl baglu, nodwyd bod arogleuon drwg mewn rhai mannau, mae angen ailbaentio rhai o'r waliau oherwydd marciau ac roedd y plastr i'w weld mewn un man y tu allan i ystafell wely.

Mae angen gwella safonau glendid hefyd. Nid oes tystiolaeth yn y siartiau glanhau trylwyr i ddangos bod llawer o'r ystafelloedd yn cael eu glanhau'n drylwyr. Mae polisi rheoli heintiau ar waith ond ni chafodd ei adolygu ers 20 Chwefror 2020. Caiff archwiliadau rheoli heintiau eu cwblhau ond nid ydynt yn effeithiol. Mae amserlenni glanhau ar waith, ond mae angen gwella'r safonau glendid ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r cyfarfodydd staff wedi nodi bod glanhau a thacluso ystafelloedd y bobl yn faes y mae angen ei wella, ond ni chymerwyd camau digonol i wella'r maes hwn o'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn cerdded o amgylch y cartref bob dydd i'w archwilio, ond ni chaiff y broses hon ei chofnodi. Mae angen i gynlluniau cynnal a chadw a chynlluniau ar gyfer gwella'r cartref fod yn glir ynghylch pa waith sydd wedi'i gwblhau, gan nodi amserlenni er mwyn blaenoriaethu'r gwaith sydd angen ei wneud o hyd. Mae adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol yn nodi bod angen gwelliannau o ran yr amgylchedd. Mae sawl mater yn yr amgylchedd yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid yw'r gwiriadau recriwtio bob amser yn ddigon cadarn. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a chanfod nad oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi cael ei chasglu. Nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys ffurflenni cais, dau ddull adnabod na dau eirda. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu cynnal, ond nid yw'r dyddiad cyhoeddi na'r dyddiad dirwyn i ben wedi'u cofnodi ar y ffeiliau. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a’u hyfforddi yn eu rolau, ond nid yw'r cofnodion yn adlewyrchu hyn yn glir. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael hyfforddiant i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Nid oedd y wybodaeth am hyfforddiant a welsom yn dangos yn glir pam nad oedd hyfforddiant wedi'i gwblhau. Caiff sesiynau goruchwylio eu cynnal, ond ni chânt bob amser eu cwblhau bob tri mis yn ôl y cofnodion a welsom. Dywedodd y staff wrthym y gallent ofyn am sesiwn oruchwylio ac y byddent yn mynd at y dirprwy reolwr neu'r rheolwr ag unrhyw faterion neu bryderon. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal â'r staff a'r uwch-aelodau o staff i drafod a gwella arferion. Nid yw deunyddiau sefydlu, ffurflenni prawf nac asesiadau cymhwysedd bob amser wedi cael eu cwblhau'n gywir a'u llofnodi. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r systemau a phrosesau ar waith i'r rheolwyr oruchwylio sut y caiff y gwasanaeth ei redeg, ond mae angen eu datblygu ymhellach er mwyn iddynt fod yn fwy cadarn ac effeithiol. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr yn cydweithio'n dda, a dywedodd y staff a'r bobl wrthym y gallant fynd atynt a chodi unrhyw faterion gyda nhw. Mae'r rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol sy'n ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis ac yn llunio adroddiad i ddangos tystiolaeth o'i waith monitro. Cynhelir adolygiad o ansawdd y gofal hefyd er mwyn ystyried beth sy'n gweithio'n dda, ac unrhyw welliannau sydd eu hangen. Mae cyfarfodydd, adroddiadau ac archwiliadau yn nodi rhai materion ond mae angen eu blaenoriaethu a chymryd camau amserol i ymdrin â nhw. Mae angen diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau hefyd, a dywedodd y rheolwr fod trefniadau ar y gweill i wneud hynny.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 59 | Nid yw'r cofnodion dyddiol na'r cofnodion o ymyriadau penodol a gohebiaeth, yr adroddiadau a'r cofnodion am y cymorth ychwanegol a roddir gan wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill yn gywir, yn gynhwysfawr nac yn glir o ran y camau a gymerwyd. Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw a'u cynnal fel y dynodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau. | Newydd |
| 35 | Mae'r darparwr wedi methu â sicrhau bod proses recriwtio gadarn ar waith. Sicrhau y caiff ffurflenni cais eu cwblhau, gan gynnwys hanes cyflogaeth llawn, ac y ceir dau ddull adnabod a dau eirda. Sicrhau y caiff dyddiadau cyhoeddi a dyddiadau dirwyn i ben gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | cofnodi ar ffeiliau'r staff. | |
| 44 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff gofal a chymorth yr unigolion eu rhoi mewn amgylchedd glân a diogel sy’n cael ei gynnal a’i gadw’n dda. Sicrhau bod y cartref wedi'i ddodrefnu'n addas, nad oes unrhyw beryglon i iechyd a diogelwch, y caiff ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i gadw'n lân i safon briodol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y staff yn ymgymryd â chyfnod sefydlu trylwyr ac yn cwblhau proses brawf gyda sesiynau goruchwylio a hyfforddiant rheolaidd ar gyfer eu rolau. Sicrhau bod dogfennaeth yn cael ei chwblhau i ddangos bod y staff wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu a'u cyfnod prawf, eu bod yn cael sesiynau goruchwylio chwarterol a bod cofnodion hyfforddi ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/06/2023